The Children's Society (2017) reported that in the general

population one in seven (14%) girls (10-15yrs) were unhappy with their lives as a whole as were one in ten boys.

Examining gender differences in our surveys in 2017, we found no gender difference in the surveys for 4-7yrs and 8-10yrs but girls aged 11-18yrs were more likely to report low well-being. Girls were four times more likely to be unhappy with their appearance and this contributed to gender differences in well-being.



Girls were nearly twice as likely to dislike their appearance compared with boys.

Girls were also more likely to record that they did not feel safe in placement, did not trust their carers and felt their carers did not notice their feelings.



Section 4: Children and young people's comments

Is there anything else you would like to tell us? What would make being in care better for you?

Comments: 4-7yrs

- 14 (36%) children gave text responses on: *What would make care better/ anything else you want to say?*
- 4 children answered that there was nothing they wanted to change.
- Other children wrote:

I would like to see my Mammy more.

I saw a teddy and that was nice.

*Hoffwo i gael dillad gwisgo i fyny.
I would like to have dressing-up clothes.*

*Chwarae gyda rhywun yn y stryd.
Playing with someone on the street.*

More toys.

See [my] brother more.

I don't like it when contact is cancelled because the taxi doesn't come.

What could make care better and other comments: 8-11yrs

- 10 (27%) children gave text responses on: *What would make care better/ anything else you want to say?*
- 4 children wrote that there was nothing they wanted to change or that they were ok.
- Other children wrote:

By seeing Mammy (name) and Daddy (name) once a week because I haven't seen them for a long time.

More fun.

I like my life better now because I get to see my Mammy more.

I want to live with my Mam and Dad. I want to live with my Gran.

We need more foster carers in the world because some children are living on the street coming from different countries.

What could make care better and other comments: 11-18yrs

- 34 (49%) young people gave text responses on: *What would make care better/ anything else they wanted to say?*
- 17 young people recorded that there was nothing they wanted to change or that they were ok.
- Several young people wrote about wanting more contact with their families. Quotes included:
 - See more of my family, not have so many rules.
 - Longer than 10 mins on the phone to my parents.
 - Seeing my family more often.
 - Seeing my parents more often.
 - Being able to phone my sister and brother and mom and rest of the family on my phone.
 - Do what I say – see my family.
 - I would rather live with my mom because she is my favourite person in the world but I would also want my sisters to live with me and my mom.
 - I know you think I am safer but I am also more lonely without my family even though my carers are great.

What could make care better and other comments: 11-18yrs

- 8 young people made comments about social workers and being involved in decision making.

More family contact, more stuff around drug use. Social workers just lie. They told me I would get £10 a week and I still haven't had it.

To see my dad and not have the social worker interrogating me.

Move [name] and [name] out of my foster home because I am a single placement and then my social [name] said it's fine without asking me about it.

Stop having so many social workers

Social workers not making such a big fuss whenever they come over, or private sections instead of in your home.

Get informed about things before something happens.

Adults to do what they say they will between my meetings – and listen to me as well. The team manager should listen to why I want to do something before deciding.

If they would give me my phone, listen to me, let me back out.

Social workers changing has been a big thing which I hate.

What could make care better and other comments: 11-18yrs

- Some young people wrote comments about their placements and things they wished they could have:
 - To do more activities with the other residents of the house and be included in more social activities.
 - I would like to get a 20 pound top-up on my phone every week.
 - More freedom, allowed out with friends outside my street.
 - To stay out later.
 - Being able to use the computer at home and be able to walk with my friends outside school.
 - More time on the internet.
 - Living with my friend [name] so then we would be like sisters or living with my sister and brother or living with a foster family having internet 😊

- Other young people wrote:

I'm ok. I got to make new friends and meet new people and visit lots of different places.

Let me be more like people who are not in foster care

I want to get out. I don't want to be in care.

I think being in care is helpful and it has helped me to control my anger more and made me a better person /my carers helped me the most.

Pull me out of essential lessons e.g. English in a GCSE year because of a stupid care survey!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!



Section 5: Positive aspects of practice and areas for improvement

What's working well

- All (100%) young children (4-7yrs) in Rhondda Cynon Taf felt settled where they lived. More young people (83%) reported feeling settled compared to looked after young people (73%) in other Welsh authorities.
- Overall, 88% of children and young people reported that they felt safe in their placements 'all or most of the time': a larger proportion than the 75% of young people in the general population who felt safe in their homes.
- More young people felt they could do the same things as their friends: 90% in RCT compared to 84% of looked after young people in other Welsh authorities.
- School is a positive experience for most children in Rhondda Cynon Taf.
- A larger proportion of children and young people (98%) felt that their carers were interested in their education compared to peers (90%) in the general population.
- The majority (80%) of children and young people (8-18yrs) thought that their lives were improving.
- None of the youngest children (4-7yrs) gave responses which suggested low well-being.
- The proportion (75%) of children and young people (4-18yrs) who had a pet was higher than reported by children in the general population where 66% have a pet.

What could be improved

- **Make sure that all social workers explain who they are.** Consider leaving child friendly information with children and young people about their social worker.
- **Work with children and young people to involve them in decisions.** Ensure that they are informed of when and why decisions are made about their care.
- **Explain to every child why they are in care and regularly review with children if they would like more information.** It was unusual to find that 36% of those aged 11-18yrs felt they did not have a good understanding of why they were in care.
- **Continue to communicate with schools to identify and help children who feel bullied at school and those who feel that they do not have a good friend.** Remind schools to give children in care opportunities to be trusted.
- **Give carers further training in therapeutic parenting:** 44% of young people did not talk regularly to their carers/parents about things that mattered and nearly a third of young people with worries felt unsupported.
- **When reviewing children's opportunities to have fun/develop hobbies, consider not just organised activities but contact with nature.** Looked after children in RCT felt they had less chance to explore the outdoors than other children living in Wales.
- **Regularly review contact plans, taking into account children and young people's wishes and feelings.** Make sure that they understand the reasons for contact decisions.
- **Be aware of gender differences and give opportunities to young people (11-18yrs) to build self-esteem and positive self-image.** Investigate why more girls than boys did not feel safe in their placements and had less positive relationships with carers.



Section 6: References

References

Adshead, G. (2012). Their dark materials: narratives and recovery in forensic practice. Royal College of Psychiatrists Publication Archives, available at: www.rcpsych.ac.uk (accessed 31 January 2013).

Adler, J. M. (2012). Living into the story: agency and coherence in a longitudinal study of narrative identity development and mental health over the course of psychotherapy. *Journal of Personality and Social Psychology*, 102(2), 367.

Cabinet Office (2012) Wellbeing: Defining high and low scores
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/225519/wellbeing_defining_high_low_scores.pdf

Cash T & Smolek L (2011) *Body Image: A Handbook of Science, Practice and Prevention*. Guilford Press: London.

Center on the Developing Child at Harvard University (2012). *The Science of Neglect: The Persistent Absence of Responsive Care Disrupts the Developing Brain: Working Paper No. 12*. Retrieved from www.developingchild.harvard.edu.

Children's Commissioner for England (2015) State of the Nation: Children in Care
www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/06/Care-monitor-v12_1.pdf 75

Conversano C, Rotondo A, Lensi E, Della Vista O, Arpone F, Reda MA. Optimism and Its Impact on Mental and Physical Well-Being. *Clinical Practice and Epidemiology in Mental Health* : CP & EMH. 2010;6:25-29.

Ford, T. Votares, P., Meltzer, H. & Goodman, R. (2007) Psychiatric disorder among British children looked after by local authorities: comparison with children living in private households *British Journal of Psychiatry* 190, pp 319-325

Gilligan, R. (2009) *Promoting resilience* London BAAF

Gleave, J. & Cole-Hamilton, I. (Revised 2012) *A world without play: a literature review*. Play England

Health Behaviour in School-aged Children survey: Wales Key findings Number: 58/2015

Ipsos MORI (2015) *Health Behaviour in School-Aged Children: Key Findings*. Cardiff: Welsh Government

National Survey for Wales <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey>

ONS (2014) *Measuring National Well-Being-Exploring the Well-being of Children in the UK 2014*

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/measuringnationalwellbeing/2014-10-08#what-we-do>

ONS (2016a) *Measuring National Well-being: Domains and Measures*

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/datasets/measuringnationalwellbeingdomainsandmeasures>

ONS (2016b) *Selected Children's Measures by Country*

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/adhoc/005283selectedchildrenswellbeingmeasuresbycountry>

ONS Statistical bulletin (2017) *Internet access – households and individuals*.

Rees G., Bradshaw J., Goswami H., and Keung A. (2010) *Understanding Children's Well-being: A national survey of young people's well-being* London: The Children's Society

Rees, G., Main, G., & Bradshaw, J. (2014). *Children's World National Report England*.

<http://www.isciweb.org/Uploads/dbsAttachedFiles/ChildrensWorldsEnglandReport-V2.pdf>

Selwyn, J., & Briheim-Crookall, L. (2017). *Our Lives, Our Care: looked after children's views on their well-being*. School for Policy Studies, University of Bristol & Coram Voice

STATS Wales <https://statswales.gov.wales/Catalogue>

Statistical Bulletin March 2017 SB 17/2017 <http://gov.wales/statistics-and-research/health-well-being-measures-children/?lang=en>

The Children's Society (2014a) *The Good Childhood Report*. London: The Children's Society

https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/The%20Good%20Childhood%20Report%202014%20-%20FINAL_0.pdf

The Children's Society (2017) *The Good Childhood Report*. London: The Children's Society.

<https://www.childrenssociety.org.uk/the-good-childhood-report-2017>

Understanding Society <https://www.understandingsociety.ac.uk/>

For enquiries about the Bright Spots project see:
<http://www.coramvoice.org.uk/professional-zone/bright-spots>

or contact:

brightspots@coramvoice.org.uk



bright spots

coram
Voice 
getting young voices heard



University of
BRISTOL

Funded by the Hadley Trust

Your Life, Your Care: 4-7 year olds survey findings



We asked you some questions about what life is like for you. We asked lots of children in care the same questions. This is what you all told us and what we want to do.

YOU SAID

What was good?

- All of you felt settled and liked your bedroom.
- Nearly all of you felt safe where you live.
- All of you trusted your carers.
- Nearly all of you trusted your social workers.
- All of you thought that you were feeling happy, or ok.
- Everyone did things that were fun at the weekends.
- Most of you thought life was getting better.

What was bad?

- Some of you did not know why you were in care.
- Some of you did not know your social worker.
- Some of you felt that grown ups did not notice your feelings.
- 2 of you did not have a good friend.
- Some of you did not like school.

YOU SAID

I would like to see my Mammy more.

Rydw i'n hapus gyda llawer o ffrindiau.

I'm happy with lots of friends.

Hoffwo i gael dillad gwisgo i fyny.

I would like to have dressing-up clothes.

I don't like it when contact is cancelled because the taxi doesn't come.



Thank you to all of you who answered the questions. It really helped to read about how you feel. Because of what you told us Rhondda Cynon Taf have decided to make some changes.

WE WILL

1. Tell you why you don't live with your mam and dad.
2. Make sure you know who your Social Worker is.
3. Help the grown ups looking after you, listen to what you have to say.
4. Make sure you know who you can go to, to feel safe in school.

bright spots

The survey was created together with children in care to ask about the things that was important to them. Coram Voice and University of Bristol have done the same survey in other local authorities and will bring together your responses to show what care is like for children across the country. If you want to find out more email: brightspots@coramvoice.org.uk

Your Life, Your Care: 8-11 year olds survey findings



We asked you some questions about what life is like for you. We asked lots of children in care the same questions. This is what you all told us and what we want to do.

YOU SAID

What was good?

- Most of you felt that your lives were getting better.
- Nearly all of you had an adult you could trust.
- Nearly all of you knew and trusted your social worker.
- Most of you liked school.
- Almost all of you had a good friend.
- Lots of you got to explore outdoors and have fun at weekends.
- Almost all of you liked your bedroom.

What was bad?

- Some of you did not feel settled where you live.
- A few of you wanted to know more about why you were in care.
- Some of you wanted to have more contact with your mothers, brothers and sisters.
- More than half of you felt that social workers made decisions without asking you or explaining why things were changing.
- Some of you did not know that you could speak to your social worker on your own.
- Some of you were sometimes afraid to go to school because of bullying.

YOU SAID

What would make care better?
More fun.

I like my life better now because I get to see my Mammy more.

I live with my brother and sister. I am happy living with them.

I want to live with my Mam and Dad. I want to live with my Gran.



Thank you to all of you who answered the questions. It really helped to read about how you feel. Because of what you told us Rhondda Cynon Taf have decided to make some changes.

WE WILL

1. Make sure you know why you are being looked after in care.
2. Make sure that you can say what you think and adults listen to you, when they make decisions about what happens to you.
3. Help the carers looking after you to take time to understand how you feel.
4. Make sure you know who to speak to and where you can go, to feel safe in school.

bright spots

The survey was created together with children in care to ask about the things that was important to them. Coram Voice and University of Bristol have done the same survey in other local authorities and will bring together your responses to show what care is like for children across the country. If you want to find out more email: brightspots@coramvoice.org.uk

Your Life, Your Care: 11-18 year olds survey findings



In February 2018 we asked you some questions about what life is like for you to understand how we can make it better. We asked lots of children in care the same questions. Here is what you all told us and what we want to do.

YOU SAID

What was good?

- Nearly all of you had a good friend.
- Most of you felt safe at home, liked your bedrooms, trusted your carers and thought that your carers supported your learning at school.
- Most of you felt that you got a second chance if you did something wrong.
- Nearly all of you thought that your carers noticed how you were feeling.
- Most of you thought you could do the same things as your friends who are not in care.
- A majority of you liked school/college.

What was bad?

- You had a lot of social worker changes and some of you did not trust your social worker.
- Over a third of you (36%) wanted to know more about why you were in care and half of you were not happy about how contact was set up.
- About a third of you worried about going to school because of bullying.
- Some of you worried about how you look and about your feelings and behaviours.
- Some of you felt that adults embarrassed you by drawing attention to you being in care.

YOU SAID

Adults to do what they say they will between my meetings.

In parents' evening people say, "This is your mam isn't it?"

I think being in care is helpful and it has helped me to control my anger more and made me a better person. My carers helped me the most.

Stop having so many social workers.



Thank you to all of you who answered the questions. It really helped to read about how you feel. Because of what you told us Rhondda Cynon Taf have decided to make some changes.

WE WILL

1. Make sure you know why you are in care.
2. Make sure that your opinions are listened to and taken seriously, when adults make decisions that affect you.
3. Help the carers looking after you to take time to understand how you feel.
4. Make sure you know who to speak to and where you can go, to feel safe in school.

bright spots

The survey was created together with children in care to ask about the things that was important to them. Coram Voice and University of Bristol have done the same survey in other local authorities and will bring together your responses to show what care is like for children across the country. If you want to find out more email: brightspots@coramvoice.org.uk



Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di:

*arolwg o farn plant a phobl ifanc
4-18oed sy'n derbyn gofal yn*

Rhondda Cynon Taf

Mawrth 2018

Dinithi Wijedasa a Jon Symonds

Prifysgol Bryste

Am y gwaith ymchwil hwn

Bright Spots

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhan o raglen *Bright Spots*: partneriaeth rhwng Prifysgol Bryste a Coram Voice.

Nodau'r rhaglen yw:

- gwella profiad gofal pob plentyn sy'n derbyn gofal;
- rhoi llais i blant ynghylch eu llesiant eu hunain; ac
- amlygu'r 'Ymarfer Disglair' ('Bright Spots') sy'n cyfrannu at ffyniant plant mewn gofal.

Ariannwyd y prosiect gan Ymddiriedolaeth Hadley, Cronfa Arloesedd yr Adran Addysg, a Chomisiynydd Plant Cymru.

- Trwy'r rhaglen fe ddatblygon ni *Ddangosyddion Llesiant Bright Spots*, oedd yn gwneud profiad a lleisiau plant yn ganolog i'n dull o fesur llesiant goddrychol.
- Mae'r dangosyddion yn cael eu mesur gan *arolwg 'Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di'* – offeryn a seiliwyd ar waith ymchwil ac sy'n gallu cael ei gymharu â setiau data cenedlaethol.
- Datblygwyd yr arolwg o adolygiadau llenyddiaeth, trafodaethau bord gron gyda gweithwyr proffesiynol a grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol gyda 140 o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn 9 awdurdod lleol yn Lloegr.
- Mae'r arolwg yn nodi'r meysydd lle mae plant i'w gweld yn ffynnu, a'r mannau lle gallai pethau wella, gan ddarparu sylfaen o dystiolaeth profiadau a llesiant plant i lywio gwelliannau gwasanaeth.

Mynegai

	Tudalen
Adran 1: Crynodeb: Canfyddiadau allweddol	4
Adran 2: Methodoleg	8
Adran 3: Canlyniadau'r Arolwg	12
1. Demograffeg	13
2. Perthnasoedd	19
3. Gwydnwch	28
4. Hawliau	38
5. Adferiad	45
6. Llesiant	54
Adran 4: Sylwadau plant a phobl ifanc	65
Adran 5: Agweddau cadarnhaol ar ymarfer a meysydd i'w gwella	71
Adran 6: Cyfeiriadau	74



Adran 1:
Crynodeb:
Canfyddiadau
Allweddol

Canfyddiadau allweddol

Ymatebodd 146 o blant a phobl ifanc i'r arolwg: cyfradd ymateb o 36%, gyda rhywfaint o dangynrychioli o ran bechgyn.



Roedd mwyafrif llethol y plant a'r bobl ifanc (4-18oed) yn teimlo'n ddiogel (**88%**) ac yn sefydlog (**83%**) yn eu lleoliadau, ac roedd bron pawb ohonynt (**98%**) yn hoffi eu stafell wely.



Roedd y rhan fwyaf yn trystio'u gofalwyr ac yn teimlo bod ganddyn nhw oedolyn y gallen nhw eu trystio yn eu bywyd.



Roedd tua **chwarter** o'r plant a'r bobl ifanc (4-18oed) eisiau mwy o gyswllt â'u mamau a brodyr a chwiorydd.



Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc (4-18oed) yn trystio'u gweithwyr cymdeithasol, ond roedd y bobl ifanc yn pwysleisio eu bod nhw ddim yn hoffi newid gweithiwr cymdeithasol.



Roedd bron yr holl blant hŷn a phobl ifanc (8-18oed) yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr cymdeithasol ac yn gwybod y gallen nhw ofyn am siarad â nhw ar eu pen eu hun. Doedd **chwarter** o'r plant iau (4-7oed) ddim yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr cymdeithasol.



Teimlai'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc (8-18oed) eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau gwaith cymdeithasol, ond nid oedd hynny'n wir yn achos **16%** o'r bobl ifanc (11-18oed). Nododd rhai pobl ifanc eu bod nhw ddim yn cael gwybod am benderfyniadau.

Canfyddiadau allweddol



Roedd merched (11-18oed) gryn dipyn yn fwy tebygol na bechgyn o:



fod yn anfodlon ar sut roedden nhw'n edrych;



beidio â thrystio eu gofalwyr;



deimlo'n anniogel mewn lleoliad; a



meddwl bod eu gofalwyr ddim yn sylwi sut maen nhw'n teimlo.

O gymharu â phlant yn y boblogaeth gyffredinol roedd mwy o bobl ifanc oedd yn derbyn gofal yn dweud:



bod ganddyn nhw ddim ffrind da.



eu bod nhw'n siarad â'u gofalwyr yn llai rheolaidd am bethau pwysig.



eu bod yn cael llai o gyfleoedd i fwynhau byd natur.

Canfyddiadau allweddol



- Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc (4-18oed) yn hoffi'r ysgol/coleg.

Ond dywedodd tua **thraean** o'r plant hŷn a'r bobl ifanc (8-18oed) eu bod weithiau'n ofni mynd i'r ysgol oherwydd bwlio; cyfran uwch o blant (**10%**) nac yn y boblogaeth gyffredinol.



- Roedd yr holl blant 8-11oed yn cael help i atal bwlio, ond dim ond **67%** o'r rhai 11-18 oed oedd yn cael help o'r fath.



Roedd tua **1 o bob 5** person ifanc (11-18oed) yn teimlo bod oedolion yn gwneud pethau oedd yn gwneud iddyn nhw deimlo embaras eu bod mewn gofal. Roedd 1 o bob 10 yn teimlo eu bod 'braidd byth' neu 'byth' yn cael ail gyfle ar ôl gwneud camgymeriad.



Nid oedd dim o ymatebion y plant **4-7oed** yn awgrymu lefel isel o lesiant, ond roedd gan **4 (11%)** o'r plant **8-11oed** a **12 (22%)** o'r bobl ifanc (**11-18oed**) sgoriau llesiant isel.



Adran 2: Methodoleg

Methodoleg

- Defnyddiwyd tri arolwg ar-lein i gasglu barn plant a phobl ifanc ar eu llesiant eu hun. Roedd y tair fersiwn ar gyfer:
 - a) plant 4-7oed (16 cwestiwn);
 - b) plant 8-11oed yn yr ysgol gynradd (31 cwestiwn); a
 - c) phobl ifanc 11-18oed yn yr ysgol uwchradd (46 cwestiwn).
- Roedd set gyffredin o 16 cwestiwn craidd.
- Roedd yr arolygon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Roedd arolygon papur ar gael hefyd ac yn cael eu defnyddio mewn achosion lle nad oedd cysylltiad rhyngrwyd ar gael, neu lle roedd yn well gan y person ifanc y dull yma.
- Yn Rhondda Cynon Taf ar adeg yr arolwg roedd 410 o blant a phobl ifanc 4-18oed yn derbyn gofal ac yn gallu cwblhau'r arolwg.
- Cwblhaodd y plant a'r bobl ifanc yr arolwg yn ddi-enw. Ni chasglwyd nodweddion adnabod unigol fel enw, ysgol ac ati, fel bod modd ymateb heb ofni canlyniadau.
- Os byddai'r plant yn nodi eu henwau neu unrhyw wybodaeth adnabod ar yr arolwg, byddai'r ymchwilyr yn dileu'r manylion hynny.

Methodoleg

- Dosbarthwyd yr arolwg trwy arweinwyr addysg i benaethiaid ysgol, yr athrawon CLA dynodedig a swyddogion ymgysylltiad ieuencid mewn ysgolion. Gofynnwyd i staff gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofawyr maeth a gweithwyr cymdeithasol, annog plant a phobl ifanc i gwblhau'r arolwg. Anfonwyd nodyn yn rheolaidd at benaethiaid, athrawon CLA dynodedig a swyddogion ymgysylltiad ieuencid i'w hatgoffa, a chysylltwyd â rhai ysgolion yn uniongyrchol.
- Anogwyd Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) i gyflwyno'r arolwg i bobl ifanc mewn cyfarfodydd adolygu.
- Yn yr wythnos olaf, bu grŵp craidd o arweinwyr strategol yn mynd ar ôl cysylltiadau mewn ysgolion a gwasanaethau IRO.
- Gofynnwyd i'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc gwblhau'r arolwg ar-lein yn yr ysgol dros gyfnod o bedair wythnos ym mis Chwefror 2018, gydag oedolyn roedden nhw'n eu trystio'n bresennol, lle roedd hynny'n briodol. Yr oedolyn roedden nhw'n eu trystio, fel arfer, oedd athro CLA dynodedig, athro, swyddog ymgysylltiad ieuencid neu SENCO.

Methodoleg

Llesiant goddrychol: Ydy'r plant yn ffynnu?

- Mae llesiant goddrychol yn yr arolwg hwn yn cyfeirio at werthusiad y plant eu hunain o sut maen nhw'n teimlo am eu bywydau.
- Mae cwestiynau yn yr arolygon am effaith (e.e. pa mor hapus mae plentyn yn teimlo nawr), dyfarniadau gwybyddol (e.e. gwerthuso perthnasoedd) a'r byd mewnol (e.e. ystyr i fywyd).
- Mae'r holl elfennau hyn yn ein helpu i ddeall a yw plant yn ffynnu.

- Lle bo modd, mae data ALI yn cael ei gymharu â data am blant yn y boblogaeth gyffredinol, ac ymatebion cyfartalog 5 awdurdod lleol arall yng Nghymru.
- Cafodd y data eu pwysoli a chynhaliwyd profion i ganfod gwahaniaethau arwyddocaol rhwng ALLau.
- Yn ogystal â'r cwestiynau sy'n mesur dangosyddion llesiant trosfwaol (hapusrwydd, boddhad mewn bywyd ac ati), mae'r cwestiynau'n cwmpasu pedwar maes sy'n bwysig i blant a phobl ifanc: Perthnasoedd, Gwydnwch, Hawliau ac Adferiad. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i bob un o'r rhain.



Ar rai tudalennau yn yr adroddiad hwn fe welwch eicon '**Bright Spots**' (i'w weld ar y chwith). Mae hyn yn nodi 'newyddion da' – agwedd gadarnhaol ar ymarfer yn eich awdurdod lleol chi.

Dyma lle mae plant a phobl ifanc yn gwneud yn sylweddol well na phlant mewn gofal mewn awdurdodau lleol eraill, neu'n sôn bod ganddynt llesiant ar yr un lefel neu well na'u cyfoedion yn y boblogaeth gyffredinol.



Adran 3: Canlyniadau'r arolwg



1. Demograffeg

- Meintiau'r sampl
- Oed a rhywedd
- Ethnigrwydd
- Lleoliadau
- Hyd y cyfnod mewn gofal

Meintiau'r sampl

Er bod rhaid cadw maint y sampl mewn cof wrth ystyried pa mor gynrychioliadol yw'r data, roedd y gyfradd ymateb yn sylweddol well nag mewn rhai arolygon tebyg. Cyfradd ymateb *The State of the Nation: Children in Care, 2015*, er enghraifft, oedd 3%.

- Cwblhaodd 146 o blant a phobl ifanc yr arolygon o boblogaeth gymwys o 410 oedd yn derbyn gofal.
- Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 36%.

Oed	Poblogaeth ofal <i>n</i>	Ymatebion <i>n</i>	Cyfradd ymateb %
4-7oed	112	39	35%
8-11oed	98	37	38%
11-18oed	200	70	35%

Oed a rhywedd


- Yn Rhondda Cynon Taf, roedd 54% o'r boblogaeth oedd yn derbyn gofal yn fechgyn. O ganlyniad, mae rhywfaint o dangynrychioli o ran bechgyn yn yr arolwg.

Grŵp Oed	Merched n (%)	Bechgyn n (%)	Dewis peidio dweud/dim ateb n (%)
4-7oed	21 (54%)	18 (46%)	-
8-11oed	19 (51%)	18 (49%)	-
11-18oed	30 (43%)	39 (56%)	1(1%)
CYFANSWM	70 (48%)	75 (51%)	1 (1%)

Ethnigrwydd

Ymddengys bod plant o leiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli rhyw fymryn yn yr arolwg, gan eu bod yn 3% o'r boblogaeth ofal yn ôl yr ystadegau a anfonodd Rhondda Cynon Taf i Lywodraeth Cymru (2017), ond yn 5% yn ein sampl ni.

- Roedd mwyafrif (95%) y plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg yn wyn.



Leoliadau


Dengys yr ystadegau a gyhoeddwyd am leoliadau awdurdod lleol fod 81% o'r plant oedd yn derbyn gofal wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth, 7% gyda rhieni neu rai â PR, a bod rhyw 6% yn byw mewn gofal preswyl. (STATWales, 2017)

- Roedd mwyafrif (68%) y plant a'r bobl ifanc yn byw mewn gofal maeth.
- Dywedodd bron chwarter eu bod yn byw gyda gofalwr oedd yn berthynas.

Grŵp oed	Gofal maeth %	Gofal teulu neu ffrindiau %	Gofal preswyl %	Gyda rhieni %	Rhywle arall %	Dewis peidio â dweud %
4-7oed	53%	45%	-	2%	-	-
8-11oed	64%	30%	3%	3%	-	-
11-18oed	75%	13%	6%	3%	3%	-
CYFANSWM	68%	24%	4%	3%	1%	-

Hyd y cyfnod mewn gofal

Pa mor hir wyt ti wedi bod mewn gofal?





2. Perthnasoedd

- Cyswllt â'r teulu
- Ffrindiau da
- Anifeiliaid anwes
- Oedolion rwyf ti'n byw gyda nhw: dilyniant ac ymddiriedaeth
- Gweithiwr cymdeithasol: dilyniant ac ymddiriedaeth

Cyswllt â'r teulu




Doedd dim cwestiynau i'r plant lleiaf (4-7oed) am gyswllt â'r teulu, rhag ofn i hynny achosi trallod neu bryder.



Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc (8-18oed) oedden nhw'n *fodlon ar amllder y cyswllt oedd yn digwydd gyda'u mam, eu tad, a'u brodyr a'u chwiorydd.*

- Nid oedd 6% o'r plant (8-11oed) a 9% o'r bobl ifanc (11-18oed) yn cael unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb gyda'r naill riant na'r llall.
- Roedd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn meddwl bod eu cyswllt â'u mamau a'u brodyr a'u chwiorydd 'fel y dylai fod'.
- Roedd tua chwarter o'r plant a'r bobl ifanc eisiau mwy o gyswllt gyda'u mamau a'u brodyr a'u chwiorydd. Roedd rhai eisiau mwy o gyswllt gydag aelodau'r teulu estynedig.
- Roedd bron yr holl blant a phobl ifanc a roddodd ymatebion testun eisiau mwy o gyswllt gyda'u teuluoedd. Roedd rhai o'r sylwadau gan bobl ifanc yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch pam roedd penderfyniadau cyswllt penodol wedi cael eu gwneud neu eisiau gwybod oedd ganddyn nhw frodyr neu chwiorydd ac yn gofyn am ragor o wybodaeth am rieni oedd wedi marw.

Cyswllt â'r teulu

Yr Aelod o'r Teulu	Grŵp oed	Gormod	I'r dim	Rhy ychydig	Methu â'u gweld	Dim brodyr na chworydd
 Mam	8-11oed <i>n</i> = 37	-	24 (65%)	10 (27%)	3 (8%)	-----
	11-18oed <i>n</i> =63	3 (5%)	33 (52%)	14 (22%)	13 (21%)	-----
 Tad	8-11oed <i>n</i> =34	-	11 (32%)	7 (21%)	16 (47%)	-----
	11-18oed <i>n</i> =64	1 (2%)	26 (41%)	8 (12%)	29 (45%)	-----
 Siblingiaid	8-11oed <i>n</i> =36	2 (6%)	19 (53%)	10 (28%)	4 (11%)	1 (2%)
	11-18oed <i>n</i> =65	5 (8%)	38 (58%)	17 (26%)	3 (5%)	2 (3%)

Cyswllt â'r teulu: 8-11 oed

Cafodd y plant gyfle hefyd i wneud *sylwadau am gyswllt*.

- Manteisiodd 18 o blant a phobl ifanc ar y cyfle i nodi eu meddyliau a'u teimladau ynghylch cyswllt. Roedd wyth plentyn eisiau mwy o gyswllt, a dywedodd 5 eu bod nhw ddim am wneud sylw. Ceir dyfyniadau enghreifftiol isod.

Rydw i'n byw gyda'm brawd a'm chwaer. Rydw i'n hapus yn byw gyda nhw.

Dydw i ddim yn hoffi cyswllt gyda mam achos mae hi'n weindio fi lan. Rydw i eisiau gweld dadi ac (enwau) ac Anti (enw). Rydw i'n teimlo'n drist.

Mae'n iawn.

I'r dim.

Hoffi gweld fy mrawd mwy.

Hoffi gweld dad.

Rydw i'n teimlo'n drist mod i ddim yn gweld Mam yn amlach.

Cyswllt â'r teulu: 11-18oed

- Manteisiodd 33 o bobl ifanc ar y cyfle i nodi eu meddyliau a'u teimladau am gyswllt. Ceir dyfyniadau enghreifftiol isod.

Rydw i'n hoffi pethau fel maen nhw.

Byddwn i'n hoffi gweld mwy o'm teulu, yn arbennig fy nhad.

Sai'n moyn gweld fy mam na'r ochr yna o'r teulu.

Rydw i'n fodlon ar y cyswllt sydd rhyngof fi a'm teulu ar hyn o bryd.

Dylwn i gael mwy o gysylltiad â'm brawd bach. Dim ond galwad ffôn, hyd yn oed.

Rydw i'n falch mod i ddim yn gweld fy nhad, a does gen i ddim mam. Rwy'n dymuno gallwn i wybod mwy am fy mam.

Ffrindiau da



Mae diffyg ffrindiau yn gysylltiedig ag unigrwydd a phryder. Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc (4-18oed) oedd ganddyn nhw *ffrind agos*.

Y Boblogaeth Gyffredinol: Canfu *The Millennium Cohort Study (2015)* o bobl ifanc 14 oed fod 3% o bobl ifanc heb ffrind da.

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc fod ganddyn nhw ffrind da, ond doedd hynny ddim yn wir yn achos 8 (6%). Dewisodd 14 o bobl ifanc (20%) beidio ag ateb y cwestiwn hwn.
- Yn gyfrannol, roedd mwy o'r plant a'r bobl ifanc oedd yn derbyn gofal (6%) heb ffrind agos o'u cymharu â'u cyfoedion yn y boblogaeth gyffredinol lle roedd 3% heb ffrind da.

Grŵp oed	Oes, mae gen i ffrind agos n (%)	Na, does gen i ddim ffrind agos n (%)
4-7oed	33 (94%)	2 (6%)
8-11oed	34 (94%)	2 (6%)
11-18oed	57 (93%)	4 (7%)
CYFANSWM	124 (94%)	8 (6%)

Anifeiliaid Anwes



Roedd anifeiliaid anwes yn bwysig i blant ym mhob un o'n grwpiau ffocws.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc 8-18 oed oedd *ganddyn nhw anifail anwes yn y cartref lle roedden nhw'n byw.*

Adborth grwpiau ffocws

Dywedodd y plant a'r bobl ifanc fod anifeiliaid anwes ddim yn barnu – maen nhw'n eich caru beth bynnag sy'n digwydd ac yn falch o'ch gweld chi bob amser. Maen nhw hefyd yn gallu rhoi cyfle i blant dderbyn cyfrifoldeb.

Y boblogaeth gyffredinol: Yng Nghymru, mae anifail anwes mewn 66% o'r aelwydydd sy'n cynnwys plentyn (o dan 19 oed).

- Roedd 26 (76%) o blant (8-11oed) yn byw ar aelwyd lle roedd anifail anwes.
- Roedd gan 50 (75%) o bobl ifanc (11-18oed) anifail anwes lle roedden nhw'n byw.
- Roedd cyfran y plant a'r bobl ifanc (75%) oedd ag anifail anwes yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol ac yn uwch na'r plant oedd yn derbyn gofal oedd ag anifail anwes (66%) mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Beth fyddai'n gwneud bod mewn gofal yn well i ti?

*Cael anifail anwes i siarad ag e a chwarae gydag e.
11-18oed*

Oedolion rwyd ti'n byw gyda nhw: dilyniant ac ymddiriedaeth

Symud lleoliad



Gofynnwyd i'r bobl ifanc (11-18oed), *sawl lleoliad rwyd ti wedi cael ers dod i ofal?*

Nifer y lleoliadau	Canran
1 lleoliad	37%
2-4 lleoliad	34%
5-7 lleoliad	13%
8-10 lleoliad	6%
11+ lleoliad	3%
Ddim yn gwybod	7%

Ymddiriedaeth



Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc oedden nhw'n *trystio'r oedolion roedden nhw'n byw gyda nhw (h.y. gofalwyr, rhieni).*

Ymatebion cadarnhaol - roedd

- 100% o'r plant iau (4-7oed);
- 94% o'r plant (8-11oed); a
- 95% o'r bobl ifanc (11-18oed) yn trystio'u gofalwyr.

*Fy ngofalwyr i
yw'r gorau.
11-18oed*

Gweithiwr cymdeithasol: dilyniant ac ymddiriedaeth


Newid gweithwyr cymdeithasol



Gofynnwyd i'r bobl ifanc 11-18 *sawl gweithiwr cymdeithasol fu gen ti yn ystod y 12 mis diwethaf?*

- Atebodd 25% eu bod wedi cael tri gweithiwr cymdeithasol neu fwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Sawl gweithiwr cymdeithasol fu gennych yn ystod y 12 mis diwethaf?



Trystio gweithiwr cymdeithasol



Gofynnwyd i blant a phobl ifanc (n=214) oedd yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr cymdeithasol oedden nhw'n *trystio'u gweithiwr cymdeithasol*.

- Roedd 96% o blant (4-7oed) yn trystio'u gweithiwr.
- Roedd lefel ymddiriedaeth plant (8-11oed) a phobl ifanc (11-18oed) yn eu gweithwyr cymdeithasol yn isel o gymharu â phobl ifanc eraill sy'n derbyn gofal.

Roedd 79% o blant (8-11oed) a 79% o bobl ifanc (11-18oed) yn trystio'u gweithiwr cymdeithasol. Mae hon yn gyfran is o gymharu â phobl ifanc mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, lle mae 83% o bobl ifanc yn trystio'u gweithiwr cymdeithasol.



3. Gwydnwch

- Oedolyn rwyd ti'n trystio
- Cael dy drystio a gwneud pethau i helpu
- Hoffi'r ysgol
- Oedolion rwyd ti'n byw gyda nhw: Cefnogi dysgu
- Cael hwyl a hobiau
- Mynediad i fyd natur
- Ail gyfle
- Sgiliau bywyd
- Mynediad i'r Rhyngrwyd gartre

Oedolyn rwyd ti'n trystio



Gofynnwyd i blant a phobl ifanc 8-18oed, *oes gen ti oedolyn rwyd ti'n trystio, sy'n dy helpu di ac yn dy gefnogi beth bynnag sy'n digwydd?*

Trobwynt

Dangoswyd bod un oedolyn allweddol yn drobwynt ym mywydau llawer o bobl ifanc sy'n derbyn gofal. (Gilligan, 2009)

Dangoswyd mai oedolyn maen nhw'n trystio yw'r prif ffactor wrth helpu plant i ymadfer wedi digwyddiadau trawmatig.

- Ysgrifennodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc fod ganddyn nhw oedolyn roedden nhw'n trystio yn eu bywyd – roedd gan:
 - 97% o blant (8-11oed); ac
 - 89% o bobl ifanc (11-18oed) oedolyn roedden nhw'n trystio.
- Roedd 8 plentyn a pherson ifanc oedd yn derbyn gofal heb oedolyn o'r fath yn eu bywyd.

Cael dy drystio a gwneud pethau i helpu

Gofynnwyd i'r plant (8-11oed) oedden nhw'n *cael cyfle i helpu'r athro*.

Adborth grwpiau ffocws

Roedd plant wedi dweud yn y grwpiau ffocws eu bod nhw byth yn cael eu trystio i dywys ymwelwyr o gwmpas yr ysgol na chyfleu neges oherwydd eu bod yn derbyn gofal.

- Dywedodd 12% o'r plant (8-11oed) eu bod yn cael cyfle i helpu 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' ac atebodd 61% 'weithiau'.
- Ysgrifennodd 9 (27%) plentyn 'braidd byth' neu 'byth'.



Fe ofynnwn ni i'r bobl ifanc: *Pa mor aml wyt ti'n cael cyfle i ddangos bod ti'n gallu cael dy drystio?*

Roedd perthnasoedd ag ymddiriedaeth a chael eu trystio yn faterion allweddol a godwyd gan y plant yn y grwpiau ffocws oedd yn sylfaen ar gyfer datblygu'r arolwg hwn.

- Roedd 42% o'r bobl ifanc (11-18oed) yn meddwl eu bod yn cael cyfleoedd 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' ac roedd 48% yn eu cael nhw 'weithiau'.
- Teimlai 8% eu bod 'braidd byth' yn cael cyfle, tra nododd 2% arall eu bod 'byth' yn cael.

Hoffi'r ysgol




Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc faint roedden nhw'n *hoffi'r ysgol neu'r coleg.*

Y boblogaeth gyffredinol: hoffi'r ysgol

Adroddodd yr *Health Behaviour in School-Aged Children Survey* (Cymru, 2015) o 5,335 o bobl ifanc (11-16oed) fod 73% yn hoffi'r ysgol 'llawer' neu 'ychydig', a 27% 'dim llawer' neu 'dim o gwbl'. Roedd hoffi'r ysgol yn lleihau wrth i oed y plentyn gynyddu, ac roedd merched yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau'r ysgol na bechgyn.

- Roedd 72% o'r grŵp 11-18oed yn hoffi'r ysgol neu'r coleg 'llawer' neu 'ychydig', sy'n debyg iawn i'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol sy'n hoffi'r ysgol.

Wyt ti'n hoffi'r ysgol?



■ Series1 ■ Series2 ■ Series3 ■ Series4

Oedolion rwyf ti'n byw gyda nhw: Cefnogi dysgu



Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc (8-18oed) oedd yr oedolion roedden nhw'n byw gyda nhw (e.e. gofalwyr, rhieni) *yn dangos diddordeb yn y pethau roedden nhw'n eu gwneud yn yr ysgol neu'r coleg.*

Y boblogaeth gyffredinol: cefnogi dysgu

Mewn cymhariaeth, adroddodd yr *Health Behaviour in School-Aged Children survey* (11-15oed) fod 90% o blant yn Lloegr yn teimlo bod gan eu rhieni ddiddordeb yn y pethau oedd yn digwydd yn yr ysgol.

- Cofnododd 97% o'r rhai 8-11oed a 98% o'r rhai 11-18oed fod yr oedolion roedden nhw'n byw gyda nhw yn dangos diddordeb yn eu haddysg 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'weithiau'.
- Mae hon yn enghraifft o ymarfer disglair – 'Bright Spot'. Mae mwy o blant a phobl ifanc (98%) yn teimlo bod gan eu gofalwyr ddiddordeb yn eu haddysg o gymharu â phobl ifanc yn Lloegr (90%) a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (93%) mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.

Cael hwyl a hobiau

Gofynnwyd i'r plant 4-7oed ac 8-11oed oedden nhw'n *cael hwyl ar y penwythnos*.



Gofynnodd yr arolwg 11-18oed i'r bobl ifanc oedden nhw'n cael *treulio amser ar eu hobiau neu eu gweithgareddau eu hunain y tu allan i'r ysgol*.

- Roedd mwyafrif o'r plant a'r bobl ifanc yn cael hwyl ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Beth fyddai'n gwneud gofal yn well?

Gwneud mwy o weithgareddau gyda thrigolion eraill y tŷ a chael fy nghynnwys mewn mwy o weithgareddau cymdeithasol.
11-18oed

Grŵp oed	Ydw, rwy'n cael hwyl/cymryd rhan mewn gweithgareddau <i>n (%)</i>	Weithiau rwy'n cael hwyl/cymryd rhan mewn gweithgareddau <i>n (%)</i>	Na, dwy ddim yn cael hwyl na chymryd rhan mewn gweithgareddau <i>n (%)</i>
4-7oed	33 (100%)	-	-
8-11oed	18 (55%)	15 (45%)	-
11-18oed	37 (61%)	20 (33%)	4 (6%)
CYFANSWM	88 (69%)	35 (28%)	4 (3%)

Mynediad i fyd natur



Gall cysylltiad â byd natur leihau straen a gwella iechyd meddwl. (Play England, 2012)

Gofynnwn ni oedd y plant a'r bobl ifanc yn cael cyfleoedd i *fwynhau yn yr awyr agored*, e.e. ymweld â pharciau, traethau a choedwigoedd.

Adborth grwpiau ffocws

Dywedodd rhai o'r plant yn ein grwpiau ffocws fod ofnau diogelu yn cyfyngu ar eu cyfleoedd.

Y boblogaeth gyffredinol:

Roedd tua 11% o blant (6-15oed) heb ymweld â'r amgylchedd naturiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Arolwg Cenedlaethol Cymru – hamdden awyr agored, 2015)

- Atebodd 84% o'r plant (8-11oed) ac 83% o'r bobl ifanc (11-18oed) eu bod yn cael mynediad 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'weithiau'.
- Roedd plant a phobl ifanc oedd yn derbyn gofal yn cael llai o fynediad i fyd natur o'u cymharu â'u cyfoedion yn y boblogaeth gyffredinol lle roedd 89% ar gyfartaledd yn dweud eu bod yn cael mwynhau yn yr awyr agored.

Ail gyfle



Gofynnwyd i'r bobl ifanc 11-18oed oedden nhw'n teimlo eu bod nhw'n *cael ail gyfle petaen nhw'n gwneud rhywbeth o le.*

Adborth o'r grwpiau ffocws

Mae pob plentyn yn gwneud camgymeriadau, ac mae angen ail gyfle, neu lawer mwy o gyfleoedd. Mae hynny'n rhan o ddysgu a thyfu i fyny.

Dywedodd llawer o blant yn y grwpiau ffocws fod pobl yn rhy barod i wrthod ail gyfle i blant oedd yn derbyn gofal.

- Dywedodd 45% 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser';
- Atebodd 42% 'weithiau'; ac
- Roedd 13% yn meddwl eu bod 'braidd byth' neu 'byth' yn cael ail gyfle.

Beth fyddai'n gwneud bod mewn gofal yn well i ti?

Tasen nhw'n rhoi fy ffôn i fi, yn gwrando arna i, yn gadael i fi fynd allan eto.
11-18oed

Sgiliau bywyd



Gofynnnon ni i'r bobl ifanc yn y grŵp 11-18oed,

Pa mor aml wyt ti'n cael cyfle i ymarfer sgiliau bywyd fel coginio bwyd iach, golchi dillad neu fynd i'r banc?

Adborth o'r grwpiau ffocws

Gofynnwyd y cwestiwn hwn oherwydd bod llawer o bobl ifanc yn y grwpiau ffocws yn teimlo eu bod heb gael eu paratoi'n ddigonol i fod yn annibynnol.

- Atebodd 85% o'r bobl ifanc (11-18oed) eu bod yn cael cyfleoedd i ymarfer sgiliau annibyniaeth 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'weithiau'.
- Dywedodd 15% fod hynny 'braidd byth' neu 'byth' yn wir.

Mynediad i'r Rhyngrwyd gartre



Gofynnwyd i'r bobl ifanc 11-18oed *oedden nhw'n gallu cysylltu â'r Rhyngrwyd gartref.*

Y boblogaeth gyffredinol: mynediad i'r Rhyngrwyd

- Yng Nghymru, mae gan 98% o'r aelwydydd sydd â phlant a dau oedolyn gysylltiad â'r Rhyngrwyd. Mae gan 90% o rieni sengl gysylltiad â'r Rhyngrwyd. (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017)
- Canfu'r *Millennium Cohort Study* o blant 11oed ei bod hi'n debygol iawn fod gan blant oedd erioed wedi defnyddio'r Rhyngrwyd tu allan i'r ysgol lefel isel o lesiant. (Adroddiad Cymdeithas y Plant, 2014)

- Adroddodd mwyafrif (90%) o'r bobl ifanc fod ganddyn nhw fynediad i'r Rhyngrwyd.
- Roedd gan 6 (10%) o bobl ifanc fynediad 'Braidd byth' neu 'Byth'.

**Beth fyddai'n gwneud bod
mewn gofal yn well i ti?
Gallu defnyddio'r cyfrifiadur
gartre a gallu cerdded gyda
fy ffrindiau tu allan i'r ysgol.
11-18oed**



4. Hawliau

- Cynnwys mewn penderfyniadau
- Stigma bod mewn gofal
- Teimlo'n ddiogel yn y lleoliad
- Bwlio
- Adnabod gweithwyr cymdeithasol a chyswllt â nhw

Cynnwys mewn penderfyniadau




Gofynnwyd i blant 8-18oed, *wyt ti'n teimlo dy fod ti'n cael dy gynnwys yn y penderfyniadau mae gweithwyr cymdeithasol yn eu gwneud am dy fywyd?*

- Roedd 92% o'r rhai 8-11oed yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'weithiau'.
- Roedd 84% o'r rhai 11-18oed yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'weithiau'

*Rwy'n teimlo mod i ddim yn cael rhoi barn yn aml am bethau yn fy mywyd.
11-18oed*

Wyt ti'n teimlo dy fod ti'n cael dy gynnwys yn y penderfyniadau mae gweithwyr cymdeithasol yn eu gwneud am dy fywyd?



Stigma bod mewn gofal



Yn yr arolwg gofynnwyd cwestiwn i'r grŵp 11-18oed am deimlo'n wahanol, *ydy oedolion yn gwneud pethau sy'n gwneud i ti deimlo embaras am fod mewn gofal?*

Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn i'r plant iau, gan fod y grwpiau ffocws yn awgrymu bod cael eu gwneud i deimlo'n wahanol yn achosi llawer mwy o bryder yn ystod y glasoed.

- Nododd 12 (18%) o'r bobl ifanc fod oedolion yn gwneud pethau oedd yn gwneud iddyn nhw deimlo embaras am fod mewn gofal.

Wrth gyflwyno fi i bobl maen nhw'n dweud, "Dyma fy merch faeth". Mae hynny'n rhoi fi mewn sefyllfa anodd, ac mae pobl yn gofyn llawer o gwestiynau am fod mewn gofal....

11-18oed

Pan fydda i gyda'r gweithiwr allweddol ac yn gweld ffrind, rwy'n teimlo embaras, a dwy ddim eisiau i'm ffrindiau wybod.

11-18oed

Yn y noson rhieni, mae pobl yn dweud, "Dyma dy fam, ontefe?"

11-18oed

Teimlo'n ddiogel mewn lleoliad


bright spots



Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc oedden nhw'n *teimlo'n ddiogel* yn y cartref lle roedden nhw'n byw. Mae'n anodd gwybod beth oedd ym meddwl plant wrth ateb, ond mae teimlo'n ddiogel yn ymwneud â sut mae'r byd yn *teimlo*, nid sut mae e o reidrwydd.

- At ei gilydd, dywedodd 88% o'r plant a'r bobl ifanc eu bod yn teimlo'n ddiogel 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser', sy'n uwch na'r gyfran o'r boblogaeth gyffredinol oedd yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi.
- Dywedodd un plentyn yn y grŵp 4-7oed nad oedd yn teimlo'n ddiogel gartref.
- Nododd 5 (14%) o'r grŵp 8-11oed a 7 (10%) o'r grŵp 11-18oed eu bod nhw ddim yn teimlo'n ddiogel trwy roi tic yn y blychau 'weithiau', 'braidd byth' neu 'byth'.

Rydw i'n teimlo'n ddiogel yn y cartref lle rwy'n byw drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser



Y boblogaeth gyffredinol:

Canfu arolwg *The Children's Worlds* fod 75% o blant (8-13oed) yn y boblogaeth gyffredinol yn teimlo'n 'Hollol ddiogel' gartref (Rees *et al.*, 2014). Mae peidio â theimlo'n ddiogel yn gysylltiedig â lefelau cortisol uwch ac anhawster dysgu a chanolbwyntio. (Prifysgol Harvard, 2012)

Bwlio

Roedd ein cwestiwn yn gofyn a oedd *plant yn ofni mynd i'r ysgol oherwydd bwlio* ac os oedden nhw'n cael eu bwlio, oedden nhw'n *cael cefnogaeth oedolyn*.


Y boblogaeth gyffredinol: Bwlio

- Mae dadansoddi'r *Children's Worlds surveys* mewn 22 o wledydd wedi dangos mai peidio â dioddef bwlio yw un o'r ffactorau pwysicaf yn llesiant plant. (Rees *et al.*, 2010)
- Mae tua 10% o blant yng Nghymru yn sôn eu bod yn cael eu bwlio'n rheolaidd yn yr ysgol. (ONS, 2016b)

- Dywedodd 11 (32%) o blant (8-11oed) a 21 (35%) o bobl ifanc (11-18oed) eu bod yn ofni mynd i'r ysgol oherwydd bwlio.
- Soniodd plant sy'n derbyn gofal am fwy o fwlio na'u cyfoedion yn y gymuned.

- Roedd yr holl blant 8-11oed oedd yn ofni bwlio yn cael help a chefnogaeth gan oedolyn. Ond roedd hynny'n digwydd yn achos 14 yn unig (67%) o'r bobl ifanc (11-18oed) a ddywedodd eu bod yn ofnus.

Fyddi di byth yn ofni mynd i'r ysgol neu'r coleg oherwydd bwlio?



Gwybod pwy yw gweithwyr cymdeithasol



Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc (4-18oed) oedden nhw'n *adnabod eu gweithiwr cymdeithasol cyfredol.*

- At ei gilydd, nid oedd 15 o blant a phobl ifanc (12%) yn adnabod eu gweithiwr cymdeithasol.
- Mae'n destun pryder nad oedd dros chwarter (26%) o'r plant iau (4-7oed) yn gwybod pwy oedd eu gweithiwr cymdeithasol.

Grŵp oed	Adnabod y gweithiwr cymdeithasol <i>n</i> (%)	Ddim yn adnabod y gweithiwr cymdeithasol <i>n</i> (%)
4-7oed	25 (74%)	9 (26%)
8-11oed	33 (97%)	1 (3%)
11-18oed	56 (92%)	5 (8%)
CYFANSWM	114 (88%)	15 (12%)

Cyswllt â gweithwyr cymdeithasol




Gofynnwyd i'r bobl ifanc (11-18oed) oedd yn adnabod eu gweithiwr cymdeithasol (n=58) pa mor *hawdd oedd cysylltu â nhw.*



Gofynnwyd i'r plant (8-11oed) a'r bobl ifanc (11-18oed) oedden nhw'n *gwybod eu bod nhw'n gallu siarad â'u gweithiwr cymdeithasol ar eu pen eu hunain.*

- Dywedodd cyfran uchel (85%) o'r bobl ifanc (11-18oed) eu bod nhw'n gallu cysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol yn hawdd 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' neu 'weithiau'. Ond ni allai 8 (15%) gysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol 'braidd byth' neu 'byth'.
- Roedd mwyafrif (70%) y plant (8-11oed) a bron pawb (98%) o'r rhai 11-18oed yn gwybod eu bod nhw'n gallu gofyn am siarad â'u gweithiwr cymdeithasol ar eu pen eu hunain.

Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i siarad â gweithiwr cymdeithasol ar dy ben dy hun?





5. Adferiad

- Gwybod y rheswm dros fod mewn gofal
- Teimlo'n sefydlog yn y lleoliad
- Hoffi stafelloedd gwely
- Oedolion rwyf ti'n byw gyda nhw: Rhianta sensitif
- Oedolion rwyf ti'n byw gyda nhw: Rhannu cyfrinachau
- Cefnogaeth gyda phryderon
- Cyfateb i gyfoedion
- Bodlon ar sut rwyf ti'n edrych

Gwybod y rheswm dros fod mewn gofal




Gofynnwyd i'r holl blant a phobl ifanc a oedd *rhywun wedi esbonio pam roedden nhw mewn gofal.*

Pwysig o ran adferiad

Mae cael gwybodaeth ystyrlon am eich hanes a deall y rhesymau pam rydych chi'n derbyn gofal yn bwysig wrth ddatblygu hunaniaeth integredig ac ymadfer wedi dioddef cam-drin ac esgeuluso. (Adshead, 2012; Adler, 2012)

Roedd dros draean o'r bobl ifanc (11-18oed) a'r plant iau (4-7oed) eisiau deall neu wybod mwy am pam roedden nhw mewn gofal. Roedd bron chwarter y plant (8-11oed) hefyd yn teimlo eu bod nhw ddim yn gwybod digon am pam roedden nhw mewn gofal. Teimlai llai o bobl ifanc yn RhCT (64%) fod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o gymharu â phobl ifanc (71%) mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.

Oes rhywun wedi esbonio wrthyd ti pam rwyd ti mewn gofal?



Teimlo'n sefydlog mewn lleoliad




Roedd yr arolygon yn ceisio canfod a oedd y plant yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus yn eu lleoliadau. Ar sail cyngor ein grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc,

*Wyt ti'n teimlo'n sefydlog yn y cartref lle rwy'ti'n byw?
(Wyt ti'n teimlo'n gyfforddus, dy fod ti'n cael dy dderbyn,
ac wedi ymlacio?)*

Opsiynau ateb

Gallai'r plant iau (4-7oed) ateb 'ydw, ar y cyfan' neu 'nac ydw, ar y cyfan'. Gallai'r plant (8-11oed) a'r bobl ifanc (11-18oed) ateb: 'drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser', 'weithiau', 'braidd byth', neu 'byth'.

- Roedd yr holl blant iau (4-7oed) yn teimlo'n sefydlog yn eu lleoliadau. Roedd traean (33%) o'r plant 8-11oed ac 17% o'r bobl ifanc (11-18oed) yn teimlo'n sefydlog 'weithiau' yn unig, 'braidd byth', neu 'byth'.



